



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

Ebost: beiseip@beis.gov.uk
Gwefan: www.gov.uk/beis

At:

Eich Cyf:

Abergelli Power Limited
Llywodraeth Cymru

Ein Cyf: EN010069
Dyddiad : 26 Gorffennaf 2019

Annwyl Syr/Madam,

Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwiliadau) 2010

Cais gan Abergelli Power Limited (“y Ceisydd”) am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu i Brosiect arfaethedig Pŵer Abergelli – sef gorsaf cynhyrchu pŵer cyfnodau prysur Tyrbin Nwy Cylch Agored (“OCGT”) (“y Cais”)

CAIS AM SYLWADAU GAN Y CEISYDD A’R RHAI ERAILL Y CYFEIRIR ATYNT YNGHYLCH Y CAIS AM BROSIECT ARFAETHEDIG PŴER ABERGELLI

Ar ôl cwblhau'r archwiliad ar 10 Ebrill 2019, cyflwynodd yr Awdurdod Archwilio Adroddiad ac Argymhelliad ynglŷn â'i ganfyddiadau a'i gasgliadau ar y cais uchod i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 10 Gorffennaf 2019. Yn unol ag adran 107 o Ddeddf Cynllunio 2008, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis i benderfynu ar y cais.

Mae yna faterion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi eu bod yn dal heb eu penderfynu ar ddiwedd yr Archwiliad, ac fe fyddai'n ddiolchgar pe gallai'r partïon a nodir mewn print tywyll ddarparu rhagor o wybodaeth erbyn y dyddiad y gofynnir amdano:

Cytundeb adran 106

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y cytundeb adran 106 rhwng y Ceisydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Sarah Ann Marina Llewellyn heb gael ei gwblhau pan gafodd yr adroddiad ei gyflwyno, a'i fod yn nwylo'r tiffeddiannwr i gael ei weithredu. Nododd yr Awdurdod Archwilio y bydd y Ceisydd yn cyflwyno copi o'r cytundeb wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gadarnhad gan y **Ceisydd** fod y cytundeb adran 106 wedi'i gwblhau ac wedi'i lofnodi, ac os felly, fod copi'n cael ei gyflwyno iddo cyn gynted â phosibl.

Ymhellach, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Datganiadau o Dir Cyffredin yn dal heb eu cwblhau ar ddiwedd yr archwiliad rhwng:

- Y Ceisydd a Wynne Watkins/Redisplay Ltd
- Y Ceisydd a Michael Edwards

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gadarnhad gan **y Ceisydd** a yw'r Datganiadau o Dir Cyffredin wedi'u llofnodi bellach gyda'r partion perthnasol neu am yr wybodaeth ddiweddaraf am eu statws cyffredol.

Yn ail, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ar 29 Ebrill 2019, a hynny ar ôl i'r archwiliad gau. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn barn **Llywodraeth Cymru** ynghylch a oes unrhyw un neu ragor o'i pholisïau sy'n berthnasol i'r Cais wedi'u newid o ganlyniad i'w datganiad o Argyfwng Hinsawdd.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 9 Awst 2019.

Dylid cyflwyno ymatebion drwy'r ebost i: Abergelli.Power@planninginspectorate.gov.uk

Anfonwch unrhyw ymateb mewn copi caled at Dîm Prosiect Pŵer Abergelli, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, d/o yr Arolygiaeth Gynllunio, 3D Eagle Wing, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol, BS1 6PN. Os cewch anhawster wrth gyflwyno ymateb erbyn y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, rhowch wybod i'r Tîm Prosiect cyn gynted â phosibl.

Caiff yr ymatebion eu cyhoeddi ar dudalen prosiect Gorsaf Bŵer CCGT Abergelli ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> cyn gynted â phosibl ar ôl 9 Awst 2019.

Anfonir y llythyr hwn heb ragfarnu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a ddylid rhoi caniatâd datblygu i Brosiect Pŵer Abergelli neu beidio, ac nid oes dim yn y llythyr hwn i'w gymryd fel pe bai'n awgrymu beth fyddai'r penderfyniad hwnnw.

Yn gywir

Gareth Leigh

Gareth Leigh
Pennaeth Cynllunio'r Seilwaith Ynni



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

Email: beiseip@beis.gov.uk
Web: www.gov.uk/beis

To:

Your Ref:

Abergelli Power Limited
Welsh Government

Our Ref: EN010069
Date: 26 July 2019

Dear Sir/Madam,

Planning Act 2008 and The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010

Application by Abergelli Power Limited (“the Applicant”) for an Order granting Development Consent for the proposed Abergelli Power Project - an Open Cycle Gas Turbine (“OCGT”) peaking power generating station (“the Application”)

REQUEST FOR COMMENTS FROM THE APPLICANT AND OTHER ADDRESSEES ON THE APPLICATION FOR THE PROPOSED ABERGELLI POWER PROJECT

Following the completion of the examination on 10 April 2019, the Examining Authority submitted a Report and Recommendation in respect of its findings and conclusions on the above application to the Secretary of State on 10 July 2019. In accordance with section 107 of the Planning Act 2008, the Secretary of State has three months to determine the application.

There are matters that the Secretary of State notes remained outstanding at the end of Examination, and would be grateful if parties identified in bold could provide further information by the requested deadline:

Section 106 Agreement

The Secretary of State notes that the section 106 agreement between the Applicant, City and County of Swansea Council (“CCS”) and Sarah Ann Marina Llewellyn was not concluded at the time that the Report was submitted and was with the landowner for execution. The Examining Authority indicated that the Applicant will submit a copy of the completed agreement as soon as possible to the Secretary of State. The Secretary of State requests confirmation from **the Applicant** that the Section 106 agreement has been completed and signed, and if so, submits a copy to him as soon as possible.

Further, the Secretary of State notes that Statements of Common Ground remained outstanding at close of examination between:

- The Applicant and Wynne Watkins/Redisplay Ltd
- The Applicant and Michael Edwards

The Secretary of State requests confirmation from **the Applicant** whether these Statements of Common Ground have now been signed with the relevant parties or provide an update on current status.

Secondly the Secretary of State notes that the Welsh Government declared a Climate Emergency on 29 April 2019. This was after the close of examination. The Secretary of State therefore seeks the opinion of **the Welsh Government** as to whether any of its policies which are relevant to the Application have changed as a result of its declaration of a Climate Emergency.

The deadline for responses is 9 August 2019.

Responses should be submitted by email to: Abergelli.Power@planninginspectorate.gov.uk

Please also send any hard copy response to the Abergelli Power Project Team, Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy, c/o the Planning Inspectorate, 3D Eagle Wing, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol, BS1 6PN. If you will have difficulty in submitting a response by the consultation deadline, please inform the Project Team as soon as possible.

Responses will be published on the Abergelli CCGT Power Station project page of the National Infrastructure Planning website:
<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> as soon as possible after 9 August 2019.

This letter is without prejudice to the Secretary of State's decision whether or not to grant development consent for the Abergelli Power Project, and nothing in this letter is to be taken to imply what that decision might be.

Yours faithfully

Gareth Leigh

Gareth Leigh
Head of Energy Infrastructure Planning